Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyllid

National Assembly for Wales
Finance Committee

Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

21 Mehefin 2018

Annwyl Gadeiryddion y Pwyllgorau

**Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019-20**

Yn ein cyfarfod ar 21 Mehefin, cytunodd y Pwyllgor Cyllid ar ein dull o graffu ar y gyllideb. Rwy'n ysgrifennu at holl Gadeiryddion y pwyllgorau pwnc i rannu ein syniadau ac i annog eich pwyllgorau i drafod sut y gallwch gyfrannu at gyflawni'r gwaith craffu mwyaf cydlynol ac effeithiol posibl ar gynlluniau gwariant y Llywodraeth.

**Y prif feysydd craffu**

Rydym wedi cytuno i barhau â'r dull a ddilynwyd yn ystod y blynyddoedd blaenorol, sef bod gwaith craffu ar y gyllideb yn canolbwyntio ar y pedair egwyddor o ran gwaith craffu ariannol: fforddiadwyedd, blaenoriaethu, gwerth am arian a phroses. Yr egwyddorion yw:

- **Fforddiadwyedd** – edrych ar y darlun mawr o ran cyfanswm y refeniw a gwariant, ac a oes cydbwysedd priodol;
- **Blaenoriaethu** – a yw'r dyraniadau wedi'u rhannu rhwng sectorau/rhaglenni gwahanol mewn ffordd gydlynol y gellir ei chyfiawnhau;
- **Gwerth am arian** – yn y bôn, a yw cyrff cyhoeddus yn gwario eu dyraniadau'n dda – economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd (h.y.) canlyniadau; a
- **Phrosesau'r gyllideb** – a ydynt yn effeithiol ac yn hygyrch ac a oes integreiddio rhwng gwaith cynllunio corfforaethol a chynllunio gwasanaethau, a rheoli perfformiad a rheoli ariannol?

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCyllid@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddFinance@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Yn dilyn digwyddiad rhanddeiliaid yn Abertawe, rydym wedi nodi nifer o feysydd yr hoffem i waith craffu ganolbwyntio arnynt, sef:

- *Sut y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio pwerau trethu a benthyca, yn enwedig o ran Cyfradd Treth Incwm Cymru*
- *Y dull gweithredu o ran gwariant ataliol, a sut y mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y broses o ddyrannu adnoddau (Gwariant ataliol = gwariant sy'n canolbwyntio ar atal problemau a lliniaru'r galw am wasanaethau yn y dyfodol, drwy ymyrryd yn gynnar), yn enwedig o ran ariannu byrddau iechyd lleol a gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol*
- *Cynaliadwyedd gwasanaethau cyhoeddus, arloesi a thrawsnewid gwasanaethau*
- *Polisïau Llywodraeth Cymru i hybu twf economaidd, lleihau tlodi ac anghydraddoldeb rhywiol, a lliniaru diwygio lles*
- *Gwaith cynllunio a pharodrwydd Llywodraeth Cymru ar gyfer Brexit*
- *Sut y mae tystiolaeth yn llywio gwaith Llywodraeth Cymru o ran pennu blaenoriaethau a dyrannu'r gyllideb*
- *Sut y mae Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn dylanwadu ar y gwaith o lunio polisi*

Rydym yn eich annog i ganolbwyntio ar rai o'r meysydd hyn yn eich gwaith craffu ar y gyllideb.

**Ymgynghoriad ar y gyllideb ddrafft**

Yn ôl yr arfer, byddwn yn cynnal ymgynghoriad ar ran yr holl Bwyllgorau yn ystod toriad yr haf a bydd yr ymatebion yn cael eu rhannu â chi yn yr hydref er mwyn eich helpu i graffu ar y gyllideb ddrafft.

Amgaeaf grynodeb o’r sylwadau a glywsom yn nigwyddiad rhanddiliaid y Pwyllgor Cyllid cyn gosod y gyllideb yn Abertawe ar 7 Mehefin, a all fod o gymorth â’r gwaith craffu ar y gyllideb.

**Amserlen**

Nid ydym wedi cael gwybod eto am ddyddiadau'r gyllideb ddrafft. Mae'n ofynnol i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid wneud hyn bythefnos cyn toriad yr haf. Rwyf wedi gofyn i Glerc y Pwyllgor Cyllid gysylltu â'ch Clerc chi pan fydd y dyddiadau'n hysbys.

Fel y gwyddoch, newidiodd y darpariaethau o ran adrodd gan bwyllgorau polisi yn 2017, ac rydych bellach yn gallu adrodd yn eich rhinwedd eich hunan (os dymunwch), a gall eich adroddiadau gael eu defnyddio fel dogfen ategol i'r ddadl ar y gyllideb ddrafft.

Fel Pwyllgor, rydym yn trafod sut y gallwn gynnal rôl oruchwylio strategol ar waith craffu ariannol. Yn ystod ein hadolygiad o waith craffu ar y gyllideb ddrafft ym mis Ionawr 2018, nododd y Pwyllgor yr ystod eang o dystiolaeth a gasglwyd cyn ac yn ystod yr archwiliad yr hydref diwethaf, yn enwedig ym meysydd iechyd, llywodraeth leol ac addysg. Arweiniodd hyn at gasgliadau ac argymhellion craff, ac rydym yn falch o weld bod gwaith dilynol wedi'i wneud arnynt drwy'r flwyddyn. Byddem yn croesawu barn gennych chi am sut y gellir gwella'r broses.

Os oes gennych gwestiynau am unrhyw agwedd ar broses y gyllideb ddrafft, mae croeso i chi gysylltu â mi neu Bethan Davies, Clerc y Pwyllgor Cyllid, ar 0300 200 6372, neu Bethan.Davies@Cynulliad.Cymru.

Yn gywir

**Simon Thomas**

**Cadeirydd**